CYLCHGRAWN GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

GORFFENNAF 2023

# CALON TÂN

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales Fire and Rescue Service



## TÎM UK-ISAR YN SINGAPÔR
TUDALEN 6



## YMWELIAD YR UCHEL SIRYFION
TUDALEN 4

## LAWNSIAD SIARTER TANAU GWYLLT
TUDALEN 8

## PRIDE LLANELLI
TUDALEN 10

## DIWRNODAU PROFIAD A DIGWYDDIADAU
TUDALEN 11-13

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| CLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASU | 3 |
| YMWELIAD YR UCHEL SIRYFION | 4 |
| TÎM UK-ISAR YN SINGAPÔR | 6 |
| LAWNSIAD SIARTER TANAU GWYLLT | 8 |
| PRIDE LLANELLI | 10 |
| TÎM DIOGELWCH CYMUNEDOL | 12 |
| DIWRNODAU PROFIAD | 13 |
| DIGWYDDIADAU | 14 |


## YSTAGEDAU DIGWYDDIADAU GORFFENNAF 2023

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1889** Galwadau i'r Ganolfan Rheoli | **927** Digwyddiadau a fynychwyd | **47** O danau mewn adeiladau | **333** O alwadau ffug |
| **15** Anifail wedi'u Hachub | **1** O ddigwyddiadau achub dwr | **41** O wrthdrawiadau traffig ffyrdd | **39** O achosion o roi cymorth i asiantaethau eraill |



**GTACGC**
**MAWWFRS**
**CLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASU**
**SPORTS & SOCIAL CLUB**

# Dewch i ymuno HEDDIW
# Become a member TODAY

**I gael rhagor o wybodaeth am y Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol, anfonwch neges e-bost**

**For further information regarding the Sports & Social Club, please contact**

**Steve Philpott - S.philpott@mawwfire.gov.uk**

Mae'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasu yn agored i holl aelodau presennol y Gwasanaeth, a'r aelodau sydd wedi ymddeol.

The Sports and Social Club is open to all current and retired members of the Service.

# CROESAWU UCHEL SIRYFION DYFED, POWYS, A GORLLEWIN MORGANNWG!

**Ddydd Mawrth, 18 Gorffennaf, croesawyd Uchel Siryfion Dyfed, Powys, a Gorllewin Morgannwg – y Mri Meurig Raymond, Reg Cawthorne, ac Alan Brayley yn y drefn honno, i bencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC).**

Mae pob un o'r tri Uchel Siryf 3 mis i mewn i'w tymor blwyddyn o hyd ac yn gefnogwyr brwd i'r gwasanaethau brys. Roedden nhw'n awyddus i ddysgu mwy am sut rydyn ni'n gweithio a'r cymorth rydyn ni'n ei ddarparu i'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Yn ystod eu hymweliad fe wnaethant gyfarfod â'n Prif Swyddog Tân Roger Thomas a chawsant eu cyflwyno i'n Tîm Arwain Gweithredol lle buont yn trafod ein gwaith Ymateb Brys, Atal ac Amddiffyn, ein cynllun strategol, a'n gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Dilynwyd hyn gan daith o amgylch Gorsaf Dân Caerfyrddin lle cawsant gyfle i gwrdd â chynrychiolwyr o'n tîm Diogelwch Cymunedol a'n Swyddog Cyswllt Fferm - Jeremy Turner, gyda phob un yn rhoi trosolwg o'r gwaith y maent yn ei wneud i gadw ein cymunedau'n ddiogel. Hefyd, bu aelodau o griw Gorsaf Dân Caerfyrddin yn arddangos offer achub bywyd hanfodol ac yn darparu rhai arddangosiadau byw.

Hoffem ddiolch i'r tri Uchel Siryf am roi o'u hamser i ddod i'n gweld ac edrychwn ymlaen at eu gweld eto yn y dyfodol agos.






TÎM UK-ISAR

# TÎM UK-ISAR WEDI'I ANFON I SINGAPÔR

**Ym mis Mehefin, cynhaliodd Tîm Chwilio ac Achub Rhyngwladol y Deyrnas Unedig (UK-ISAR), sy'n cynnwys aelodau criw o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACC) a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC), ymarfer hyfforddi yn Singapôr.**

Cynhaliwyd yr ymarfer hyfforddi, o'r enw Exercise Merlion, rhwng Mehefin 12 ac 16 gan ganiatáu i Dîm UK-ISAR baratoi aelodau o'r tîm ar gyfer gweithio mewn gwres a lleithder ac i brofi effeithiau ffisiolegol gweithio mewn hinsawdd drofannol. Roedd hefyd yn caniatáu iddynt ymgyfarwyddo ag offer amddiffynnol personol tywydd poeth newydd, y gellir eu defnyddio hefyd fel cyfarpar diogelu personol tanau gwyllt.

Dros y cyfnod o 72 awr, roedd sawl senario achub heriol i aelodau'r tîm eu cyflawni, gan gynnwys 'torri a bylchu', codi a symud, dringo a mynediad llinell. Roedd rhai o'r senarios hyn yn cyfuno heriau ychwanegol dŵr ac uchder.

Roedd yr ymarfer yn gyfle gwych i ryngweithredu, gydag aelodau o dîm lleol Singapôr yn cynorthwyo mewn rhai sefyllfaoedd, yn ogystal â darparu eu cŵn chwilio ar gyfer ymarferion hyfforddi chwilio am rai wedi'u hanafu, a oedd hefyd yn cynnwys defnyddio camerâu chwilio mewn gwagleoedd anhygyrch i bobl.

Roedd llawer o gyfleoedd hefyd i dîm meddygol UK-ISAR ddarparu gofal anafiadau, i ddioddefwyr byw yn ogystal â dymis efelychiedig ag anafiadau. Bu'r tîm yn ymarfer eu hymateb i amrywiaeth o anafiadau o wahanol ddifrifoldebau. Roedd yn ofynnol i'r tîm logisteg ymgyfarwyddo ag offer Singapôr gan chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu sefydlogrwydd ar gyfer strwythurau anniogel mewn digwyddiadau efelychiedig o bell. Caniataodd hyn i'n timau achub gofod cyfyngedig ddangos eu gallu i fynd i mewn i'r strwythurau hyn, darparu gofal trawma ac wedyn achub rhai ag anafiadau a oedd wedi'u claddu.

Trwy gydol yr ymarfer bu'r tîm yn cymryd rhan mewn nifer o senarios heriol i brofi eu sgiliau gwneud penderfyniadau dan bwysau, a oedd yn cynnwys ffrwydradau nwy, nwy'n gollwng, gwacáu safle, saethu gwn a ffrwydradau a cheisiadau ychwanegol am gymorth.





## TÎM UK-ISAR

Mae'r Tîm UK-ISAR ar alwad 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn i ymateb i ddigwyddiadau dyngarol, damweiniau neu drychinebau unrhyw le yn y byd, i ddarparu'r gallu i chwilio ac achub a chefnogi ymdrechion dyngarol. Mae'r tîm wedi bod yn gweithredu ers dros 20 mlynedd ac mae ganddo aelodau o 13 o Wasanaethau Tân ac Achub y DU, sydd wedi cyflawni cyrchoedd chwilio, achub a rhyddhau ledled y byd yn llwyddiannus.












SIARTER TANAU GWYLLT

# LANSIO SIARTER TANAU GWYLLT CYMRU YN SIOE AMAETHYDDOL FRENHINOL CYMRU

**Lansiwyd Siarter Tanau Gwyllt cyntaf Cymru yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, Llanelwedd, Ddydd Llun 24 Gorffennaf 2023.**

Mae Siarter Tanau Gwyllt Cymru yn ddogfen strategol allweddol sy'n amlinellu ymrwymiadau Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru, sy'n cynnwys asiantaethau allweddol o bob rhan o Gymru, ac mae'n nodi sut byddent yn rheoli'r risg o danau gwyllt, gan leihau ei effaith ar yr amgylchedd ac ar gymunedau Cymru.

Dywedodd Iwan Cray, Cadeirydd Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru a Dirprwy Brif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru,

*"Mae ein Siarter Tanau Gwyllt newydd wedi'i seilio ar wybodaeth a phrofiad y mae'r partneriaid ar y Bwrdd wedi'u hennill dros y degawd diwethaf wrth iddynt fynd i'r afael ag effaith tanau gwyllt ledled Cymru.*

*"O dan ymagwedd gydweithredol Bwrdd Lleihau Tanau Bwriadol Strategol, rydym wedi gweld llwyddiannau sylweddol, a gyflawnwyd trwy lawer iawn o benderfyniad a gwaith caled gan yr holl asiantaethau dan sylw. Fodd bynnag, mae tanau gwyllt ledled Cymru yn parhau i beri perygl clir a phresennol i'n hamgylchedd, ein heconomi a'n cymunedau. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld yr arwyddion cynnar o lwyfannu yn nifer y digwyddiadau, gan nodi bod angen dull newydd i sicrhau y gallwn ddelio â'r heriau sy'n dod i'r amlwg yr ydym yn eu hwynebu."*

Dywedodd Andrew Wright, Cadeirydd Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru ac Uwchgynghorydd Arbenigol – Iechyd Planhigion a Throsglwyddo Gwybodaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, *"Mae ein siarter tanau gwyllt wedi'i llunio o amgylch tair thema allweddol, pob un wedi'i chynllunio i sicrhau ein bod yn gallu canolbwyntio ar y meysydd hynny sydd nid yn unig angen y sylw mwyaf, ond a fydd hefyd yn cael y dylanwad mwyaf o ran gwella ein dealltwriaeth o danau gwyllt a sut y gall y Bwrdd reoli eu heffaith mewn ffordd gadarnhaol."*

## Mae themâu'r Siarter Tanau Gwyllt yn cynnwys:

### Partneriaethau

Trwy weithio mewn partneriaeth sy'n esblygu, byddwn yn dod â Llywodraeth Cymru, y Gwasanaethau Brys, Sefydliadau Cyhoeddus a Phreifat, Tirfeddianwyr a Defnyddwyr Tir at ei gilydd i reoli ac i ddatblygu ein tirwedd.

### Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol

Byddwn yn cyfrannu at reoli ein tirwedd er mwyn diogelu bywyd gwyllt; coedwigaeth a bywoliaethau; i wella lles, iechyd ac amwynder, i hwyluso cynhyrchu bwyd cynaliadwy, ac i greu ymdeimlad o le a pherchnogaeth gymunedol.

### Atal ac Amddiffyn

Byddwn yn gweithredu ystod amrywiol o dechnegau rheoli er mwyn lleihau effaith tanau gwyllt ar ein cymunedau a'r dirwedd yng Nghymru.

Mae tanau gwyllt yn gyfrifol am ddinistrio miloedd o hectarau o gefn gwlad, mannau agored a chynefinoedd bywyd gwyllt bob blwyddyn. Bydd Partneriaid y Bwrdd Tanau Gwyllt yn ymrwymo i weithio gyda'n cymunedau er mwyn creu tirwedd sy'n iachach ac yn fwy cydnerth, a hynny trwy wella bioamrywiaeth cefn gwlad ar gyfer ein dyfodol.

Nod Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru, gyda'u dull amlasiantaethol o ymdrin ag ymwybyddiaeth tanau gwyllt, yw ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol, cydweithio er mwyn cefnogi'r gwaith o reoli tanau gwyllt, a gwrando a rhannu datrysiadau ymarferol ar gyfer Cymru. Drwy ddefnyddio'r dull cydweithredol hwn, mae'r asiantaethau sy'n rhan o Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn gobeithio cynnig gwell dealltwriaeth o'r hyn y gellir ei wneud i gyfyngu ar nifer y tanau gwyllt, a thrwy hynny leihau'r difrod y gallant ei achosi i'n hamgylchedd.

Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru
Wales Wildfire Board







PRIDE LLANELLI

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU YN YMUNO Â PRIDE LLANELLI 2023

**Ymunodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru â dathliadau lliwgar Pride Llanelli ddydd Sadwrn, Gorffennaf 15fed.**

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd yr hyn y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ei wneud ac maent yn werthoedd sy'n greiddiol i'n prosesau, arferion a diwylliant. Felly, roedd yn bleser cefnogi ac ymuno â dathliad blynyddol Pride Llanelli o'r gymuned LHDTC+, a oedd yn cynnwys gorymdaith trwy ganol y dref yn ogystal ag amrywiaeth o weithgareddau, stondinau ac adloniant yng Nghanolfan Selwyn Samuel.

Yn rhan o Orymdaith Pride Llanelli oedd Injan Dân Pride y Gwasanaeth, aelod lliwgar o fflyd hyfforddi'r Gwasanaeth, ac roedd aelodau o'r Tîm Diogelwch Cymunedol yno hefyd. Er gwaetha'r glaw trwm, roedd gwên ar wynebau pawb oedd yn cymryd rhan yn yr orymdaith wrth iddynt chwifio baneri enfys y Gwasanaeth.

Yn dilyn yr orymdaith, roedd aelodau o Dîm Diogelwch Cymunedol y Gwasanaeth a chriw Gorsaf Dân Llanelli wrth eu stondin yng Nghanolfan Selwyn Samuel i gynnig cyngor a gwybodaeth ar ddiogelwch tân, yn ogystal â nwyddau Pride y Gwasanaeth.
Yn ogystal ag aelodau o gymuned Llanelli, cafodd y tîm hefyd gyfle i groesawu Maer Tref Llanelli, y Cynghorydd Nicholas Pearce, i'w stondin.

Edrychwn ymlaen at ymuno â Pride Llanelli 2024!















TÎM DIOGELWCH CYMUNEDOL

# CYNHYRCHION MISGLWYF HANFODOL I'W DOSBARTHU GAN Y TÎM DIOGELWCH CYMUNEDOL

**Ym mis Mehefin, derbyniodd Tracey Davies a Hannah Blewitt becynnau lles menywod a roddwyd yn garedig gan Hannah Lodder-Rodda, Cynrychiolydd Menywod yn y Gwasanaeth Tân yng Nghymru.**

Bydd y pecynnau, a fydd ar gael am ddim, yn cael eu dosbarthu gan y Tîm Diogelwch Cymunedol tra byddant yn mynychu digwyddiadau a gweithgareddau ieuenctid. Maent yn cynnwys amrywiaeth o gynhyrchion misglwyf ecogyfeillgar a dyllai wella mynediad at yr eitemau hanfodol hyn.

Dywedodd Richard Felton, Pennaeth Diogelwch Cymunedol: *"Rydym yn hynod ddiolchgar am y rhodd garedig hon gan ein bod yn profi mwy a mwy o dlodi misglwyf sy'n effeithio ar gynifer o fenywod a merched."*

Casglwyd y pecynnau gan Hannah Lodder-Rodda yn Nigwyddiad Hyfforddi a Datblygu Cenedlaethol Merched yng Ngwasanaeth Tân y DU yn gynharach ym mis Mehefin. Yn y llun mae Tracey Davies, Ymarferydd Ieuenctid, Hanner Lodder-Rodda a Hannah Blewitt, Ymarferydd Ieuenctid.






DIWRNODAU PROFIAD

# BYDDWCH YN DDIFFODDWR TÂN

**Ydych chi erioed wedi ystyried dod yn ddiffoddwr tân, ond yn ansicr o'r gofynion na'r broses ddethol?**

Rydyn ni'n cynnal cyfres o Ddiwrnodau Profiad sy'n rhoi cyfle i chi ofyn unrhyw gwestiynau, gwisgo cyfarpar tân a gweld beth allwch chi ei wneud!

Ymunwch â ni yng Nghoed-yr-Iarll ar Awst 9fed, 12fed neu'r 22ain, neu Orsaf Hwlffordd ar Awst 31ain 2023.

Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu, ewch i:
https://www.tancgc.gov.uk/cym/ymunwch-a-ni/diwrnod-profiad/

**Mae archebu ymlaen llaw yn hanfodol.**










DIGWYDDIADAU

# DIWRNODAU AGORED

- Diwrnod Agored Doc Penfro - Gorffenaf 28ain
- Diwrnod Agored Dinbych y Pysgod - Awst 2ail
- Diwrnod Agored Aberdaugleddau - Awst 3ydd
- Diwrnod Agored Rhydaman - Awst 19fed
- Diwrnod Agored y Pencadlys - Medi 1af
- Diwrnod Agored Hwlffordd - Medi 9fed



# COFIWCH Y DYDDIAD

MWY NA DIM OND TANAU
MORE THAN JUST FIRES

## Gwobrau Mwy Na Dim Ond Tanau 2023


Cynhelir digwyddiad eleni ddydd Gwener, Tachwedd 10fed 2023, yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod a fydd yn cydnabod ymdrechion aruthrol a wneir gan weithwyr y Gwasanaeth i wneud ein cymunedau'n fwy diogel i fyw, gweithio ac ymweld â nhw.




Mae enwebiadau bellach ar agor, ewch i Insight i gyflwyno eich enwebiad a bydd yn cau ddydd Gwener, Medi 1af.*

**Gallai eich enwebiad wneud byd o wahaniaeth!**

*Yn agored i staff y gwasanaeth yn unig



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# #MwyNaDimOndTanau
# #MoreThanJustFires

www.tancgc.gov.uk